Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

08.05.24
Neris Morgans

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod FFORWM CYLLID YSGOLION CEREDIGION yn rhithiol drwy 'Zoom' ar **Ddydd Iau, 9 Mai 2024** am **4.30yh** i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol
3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 6 Chwefror 2023 (Atodiad A)
4. Materion yn codi o'r Cofnodion
5. Sefyllfa Gorfforaethol Gyffredinol
6. Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig
7. Grantiau Llywodraeth Cymru- 4 ffrwd newydd
8. Cynllun Ynni Re:fit
9. Unrhyw fater arall

Dear Sir/Madam

I write to inform you that a Meeting of the CEREDIGION SCHOOLS FINANCE FORUM will be held remotely via 'Zoom' on **Thursday, 9 May 2024** at **4.30pm** for the transaction of the following business:

1. Apologies
2. Disclosure of personal interest
3. To confirm the Minutes of the Meeting held on 6 February 2023 (Appendix A)
4. Matters arising from the Minutes
5. Overall Corporate Position
6. Schools Delegated Budget
7. Welsh Government Grants- New 4 streams
8. Re:fit Energy Scheme
9. Any Other Business

**Yr eiddoch yn gywir/** Yours faithfully

***Miss Lowri Edwards***
***Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd/***
*Corporate Lead Officer: Democratic Services*

**At: Gadeirydd ac Aelodau Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion**
To: Chairman and Members of the Ceredigion Schools Finance Forum

**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol drwy ZOOM ar ddydd Llun, 6 Chwefror 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad a Phobl a Threfniadaeth; Y Cynghorydd Endaf Edwards, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu; Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael; Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; Peter Leggett, Pennaeth, Ysgol Gynradd Rhydypennau a Stephen Cooper, Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Bro Pedr.

**Hefyd yn bresennol**: Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Sian Jones, Cyfieithydd.

(6.00pm – 6.55pm)

1. **Ymddiheuriadau**

i) Ymddiheurodd Chris Macey, Cyfrifydd y Gwasanaeth- Cefnogaeth i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

ii) Ymddiheurodd Mike Carruthers, Pennaeth, Ysgol Gynradd Comins Coch; Carol Davies, Pennaeth, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Dyffryn Cledlyn; Mair Hughes, Pennaeth, Ysgol Penglais; Owain Jones, Pennaeth, Ysgol Gyfun Aberaeron; Catryn Lawrence, Pennaeth, Ysgol Gynradd Penrhyncoch; Meinir Lewis, Pennaeth, Ysgol Gynradd Llechryd a Dorian Pugh, Pennaeth, Ysgol Henry Richard am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

iii) Ymddiheurodd Gary Davies, Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Ciliau Parc a Chris Evans, Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Uwchradd Aberteifi am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2. **Datgelu buddiannau personol**

Bu i'r Cynghorydd Bryan Davies ddatgan buddiant personol am fod aelod o'r teulu yn gweithio yn un o ysgolion awdurdod lleol Ceredigion.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2023**

**CYTUNWYD** i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**

Dim.

5. **Sefyllfa Gorfforaethol Gyffredinol**

Er gwaethaf setliad gwell nag yn y blynyddoedd blaenorol, esboniodd y Cadeirydd fod y gyllideb yn parhau i fod yn heriol oherwydd sawl ffactor megis chwyddiant a chynnydd mewn prisiau tanwydd.

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gyflwyniad yn amlinellu'r canlynol:

- Cyfarfod y Cabinet ac Adroddiad ar y Gyllideb 24/01/23
- Rhagdybiaethau ac Ansicrwydd y Gyllideb
- Y pwysau Cyllidebol a ragwelir 2023/24
- Arbedion Cyllidebol arfaethedig 2023/24
- Ystyriaethau Treth y Cyngor 2023/24

**6. Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gyflwyniad yn amlinellu'r canlynol:

- Cyd-destun y Gyllideb
- Y Diweddariad a roddwyd i bob Ysgol 31/01/23
- £1.1m ychwanegol o Gyllid Grant Cyfalaf
- Cyllideb 23/24: y Camau Nesaf

Nodwyd y byddai penderfyniad terfynol y gyllideb yn digwydd yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 02.03.2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael am roi trosolwg o'r gyllideb, ac am waith diwyd yr adran yn paratoi'r papurau.

Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei ddiolch hefyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael am gyflwyno'r wybodaeth mewn modd clir a dealladwy. Roedd pennu'r gyllideb wedi bod yn bryder ers mis Mai 2022 ac er gwaethaf setliad gwell na'r disgwyl, roedd cyllideb yr ysgolion wedi bod ar feddyliau'r Cabinet i sicrhau bod addysg o safon yn cael ei chynnal. Yn y weinyddiaeth flaenorol, roedd ambell gynghorydd wedi awgrymu adleoli cyllid o ysgolion i'r henoed, fodd bynnag, ni chafodd hyn ei basio. Roedd cyllid ychwanegol i ysgolion yn bwysig, serch hynny, roedd pennu'r gyllideb yn parhau i fod yn heriol i bob adran. Cynigiodd y Cabinet y ffigurau a argymhellwyd yn y papurau, fodd bynnag, roedd argymhellion eraill yn gallu cael eu cynnig gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu oedd i'w cynnal yn ddiweddarach yn yr wythnos.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant fod gan ysgolion amser heriol o'u blaenau ac roedd cronfeydd wrth gefn yr ysgolion, a oedd yn hanesyddol o uchel, yn amrywio'n sylweddol o un ysgol i'r llall. Ar wahân i grant cyllid cyfalaf gwerth £1.1 miliwn nid oedd dim arwydd o grantiau pellach ar hyn o bryd. Roedd grantiau niferus wedi bod ar gael yn ystod pandemig Covid-19 ond ymddengys fod hynna wedi dod i stop. Roedd heriau sylweddol yn parhau yn dilyn Covid-19 a byddai gan ambell i Gorff Llywodraethu Ysgol benderfyniadau anodd i'w gwneud wrth symud ymlaen.

Mewn ymateb i ymholiad gan Stephen Cooper parthed y £2.3 miliwn o arbedion a glustnodwyd i ysgolion allan o arbedion arfaethedig y gyllideb o £8.8 miliwn, eglurodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael fod canran yr arbedion a glustnodwyd i ysgolion yn amrywio o flwyddyn i

flwyddyn. Fe'i hystyriwyd o safbwynt corfforaethol, ac ystyriwyd sawl ffactor gan gynnwys pwysau costau.

Nododd Stephen Cooper fod y grantiau yn fuddiol yn ystod cyfnod Covid-19 ond nad oeddent yn gynaliadwy yn yr hinsawdd economaidd a oedd ohoni.

Gan fod niferoedd y disgyblion wedi gostwng, fel yn achos poblogaeth y sir, esboniodd Arweinydd y Cyngor fod hyn yn effeithio ar lefel y Grant Cymorth Refeniw (RSG) a dderbyniai'r awdurdod lleol. Fel arfer, byddai awdurdod lleol yn derbyn 80% o'r RSG a'r 20% sy'n weddill o'r gyllideb a ariennir drwy Dreth y Cyngor, ond yng Ngheredigion roedd 73% yn cael ei ddarparu drwy'r RSG a 27% o Dreth y Cyngor.

Nododd Peter Leggett y byddai'n well gan benaethiaid gael y gyllideb cyn gynted â phosib, wrth reswm, i gynllunio ymlaen a sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i'r addysg orau – roedd yn rhwystredig pan fyddai grantiau yn cael eu dyfarnu yn hwyr yn y flwyddyn. Roedd yn amlwg fod pwysau sylweddol ar gyllideb y Cyngor a bod ysgolion yn derbyn cyfran helaeth o'r gyllideb. Holodd beth oedd ynghlwm wrth adolygu strwythur yr ysgolion cynradd.

Esboniodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant, pe byddai gostyngiad yng nghyllid ysgolion, y byddai angen cynnal adolygiad o seilwaith yr ysgolion. I ddechrau, cytunir ar gyfres o egwyddorion craidd o ran cynaliadwyedd. Roedd adolygiad o ddarpariaeth addysg ôl-16 yn mynd rhagddo ond nid oedd yr adolygiad cynradd wedi dechrau eto. Ar ôl cyfarfod y Cabinet ar 14.02.23 bydd yr adran yn gallu bwrw ymlaen â chyllideb ddrafft yr ysgolion a fydd yn dod i fwcwl yn dilyn cyfarfod y Cyngor llawn ar 02.03.23.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr heriau sy'n gysylltiedig â grantiau hwyr wedi eu mynegi yn flaenorol i weinidogion Llywodraeth Cymru. O ran seilwaith, polisi'r Cyngor yn y gorffennol oedd cau ysgolion cynradd oedd â llai nag 20 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, fodd bynnag, nid oedd y polisi hwn bellach ar waith. Roedd ysgolion oedd â llai nag 20 o ddisgyblion yn cael eu hannog i fod yn rhagweithiol. Pwysleisiwyd fod profiad y disgybl yn flaenoriaeth.

Wrth i gyllidebau ysgolion leihau, dywedodd Peter Leggett fod ysgolion nid yn unig yn ei chael hi'n anodd cadw staff ond hefyd fod llai o waith cynnal a chadw a gwelliannau yn debygol, gan arwain at ddirywiad yn isadeiledd yr ysgolion. Tynnodd sylw at y ffaith mai disgyblion yn ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, megis Ysgol Bro Teifi, oedd â'r adnoddau gorau yn sgil buddsoddi. Roedd angen ystyried sicrhau bod disgyblion yng ngogledd y sir yn cael mynediad i adnoddau o'r un safon.

Dywedodd y Prif Swyddog Corfforaethol: Ysgol a Diwylliant fod y gyllideb yn cynnwys cynnal a chadw ac atgyweirio ysgolion a bod grantiau cynnal a chadw wedi bod o fudd mawr yn y gorffennol. Yn gorfforaethol, roedd

cynllun 3, 6 a 9 mlynedd i oruchwylio'r buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion ac roedd rhaglen gynnal a chadw ar waith. Adroddwyd bod anawsterau o ran denu busnesau i dendro am waith. Ar hyn o bryd, doedd dim golwg bod gormod o effaith yn sgil y cyllid cyfalaf oddi wrth Lywodraeth Cymru, cyn belled â bod cynlluniau ar waith.

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod buddsoddi mewn athrawon a staff yn bwysig iawn, ynghyd â gwrando ar eu barn.

7. **Unrhyw fater arall**
   Mynegwyd pryderon ynghylch sylwadau negyddol diweddar ynglŷn â'r Gymraeg gan un o Lywodraethwyr Ysgol Henry Richard, a hynny ar y cyfryngau. Nodwyd bod swyddogion a staff yr ysgolion yn gweithio'n ddiflino i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgolion.

   Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith gan nodi y byddai cyllidebau'r ysgolion ar eu ffordd cyn gynted â phosib.

8. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
   Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.